**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 24 Mehefin 2022 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Jill Burgess (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M B Lewis | L G Thomas | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Michaela Jones | Janet Pardue-Wood | Margaret Williams |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): O G James
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Mike Lewis

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.

## 3 Pwyllgor Safonau - Dyletswyddau newydd.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried dyletswyddau newydd y Pwyllgor a chytuno ar gamau gweithredu i sicrhau cydymffurfiaeth.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cynllun gweithredu fel a nodir ym mharagraff 2.5 i sicrhau cydymffurfiaeth â'u dyletswyddau newydd o dan ddeddfwriaeth.

## 4 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2021-2022.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn nodi gwaith y Pwyllgor Safonau yn ystod 2021-2022.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2021-2022 a'i drosglwyddo i'r cyngor ar 7 Gorffennaf 2022 er gwybodaeth.

## 5 Torri Cod Ymddygiad - Cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC).

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad "er gwybodaeth" i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am benderfyniadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â honiadau bod Cynghorwyr Awdurdodau Lleol a Chynghorwyr Cymuned a Thref wedi torri'r Côd Ymddygiad.

## 6 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Safonau.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried Cynllun Gwaith y Pwyllgor ac i gytuno ar yr eitemau i'w hystyried gan y Pwyllgor Safonau yn 2022/23.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Gwaith a amlinellir yn Atodiad 1 ar gyfer blwyddyn ddinesig 2022/23.

## 7 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 8 Ceisiadau am Ollyngiad.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried ceisiadau ar gyfer goddefeb mewn perthynas â’r Cynghorwyr canlynol:

i) Y Cynghorydd R V Smith;
ii) Y Cynghorydd C A Holley;
iii) Y Cynghorydd A Pugh.

Wrth ystyried caniatáu goddefebau, ceisiodd y pwyllgor gydbwyso budd y cyhoedd wrth atal aelodau â chysylltiadau rhagfarnol rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd o gael grŵp cynrychiadol o aelodau'r awdurdod yn gwneud penderfyniadau.

Amlinellwyd y rhesymau y tu ôl i'r ceisiadau yn yr adroddiad a gwnaeth y Swyddog Monitro ymhelaethu arnynt yn ystod trafodaeth ar y mater.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

(i) Rhoi goddefeb i'r Cynghorydd R V Smith o dan baragraff 2 (ch) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Goddefebau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd):

Aros a siarad ond i **beidio** â phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â phenodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

**Ni fydd** yr oddefeb hon yn gymwys os yw'r Cynghorydd yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson sydd â chysylltiad agos (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â phenodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol ac sy'n benodol iddo.

(ii) Rhoi goddefeb i'r Cynghorydd Chris Holley o dan baragraff 2 (ch) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Goddefebau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd):

Aros, siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau llafar ac ysgrifenedig o ran materion sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

**Ni fydd** yr oddefeb yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i ferch ac sy'n benodol iddi.

(iii) Rhoi’r oddefeb ganlynol i'r Cynghorydd A Pugh dan baragraff 2 (ch) Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Rhoi Goddefebau) (Cymru) 2001 (fel y'i diwygiwyd):

Aros, siarad a phleidleisio (ond **nid** mewn perthynas â chyflogaeth ei merch) wrth ystyried faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a Theuluoedd.

**Ni fydd** yr oddefeb yn gymwys os yw'r cynghorydd yn dod yn ymwybodol o unrhyw effaith ar berson cysylltiedig (o fewn ystyr paragraff 10 (2) (c) y Côd Ymddygiad) sy'n ymwneud â'i merch ac sy'n benodol iddi.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.38 am

**Cadeirydd**